Caulmert Limited

Gwasanaethau Ymgynghoraeth
Peirianneg, Amgylcheddol a Chynllunio

Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Tremeirchion

Mae Dŵr Cymru Welsh Water

Newid defnydd tir ac adeiladu Gwlyptir Trin Adeiledig Integredig (ICTW) a gwaith cysylltiedig gan gynnwys gosod 2 danc septig danddaear, creu 3 chell gwlyptir â phlannu, cyfleuster lles, ffyrdd mynediad mewnol newydd, ffensys a thirweddu.

Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad

Paratowyd gan:

Caulmert Limited
Swyddfa: Glyndwr Innovations Ltd, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JD
Ffôn: 0161 928 6886
Ebost: jennycoxon@caulmert.com
Gwe: www.caulmert.com

Cyfeirnod y Ddogfen: 5924-CAU-XX-XX-RP-T-0300.A0.C2

October 24

Caulmert
engineering environmental planning

COFNOD CYMERADWYO

Safle:	Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Tremeirchion
Cleient:	Mae Dŵr Cymru Welsh Water
Teitl y Prosiect:	ITCW Arfaethedig, GTDG Tremeirchion
Teitl y Ddogfen:	Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad
Cyf. y Ddogfen:	5924-CAU-XX-XX-RP-T-0300.A0-C2
Statws yr Adroddiad:	**DRAFFT TERFYNOL YR YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO**
Rheolwr y Prosiect:	Jenny Coxon
Caulmert Limited:	Glyndwr Innovations Ltd, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JD

Awdur	Aslan Saylam Cynllunydd Graddedig	**Dyddiad**	10/10/2024
Adolygwr	Jenny Coxon Prif Gynllunydd	**Dyddiad**	15/10/2024
Cymeradwywyd	Jenny Coxon Prif Gynllunydd	**Dyddiad**	16/10/2024

Cofnod Adolygu			
Diwygiad	**Disgrifiad o'r Newid**	**Cymerad-wywyd**	**Dyddiad Gweithredu**
P0	Cyhoeddiad Cyntaf	J.C.	15/10/2024
P1	Diwygiadau yn sgil sylwedadu'r cleient	J.C	17/10/2024
C2	Cyhoeddiad Terfynol	J.C	21/10/2024

YMWADIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Caulmert Limited gan ddefnyddio pob sgil, gofal a diwydrwydd rhesymol yn unol â chyfarwyddiadau'r cleient uchod ac o fewn amodau a thelerau'r Contract gyda'r Cleient.

Mae'r adroddiad at ddefnydd y Cleient uchod yn unig, ac ni fydd Caulmert Limited yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd o'r adroddiad hwn na'i gynnwys at unrhyw ddiben heblaw'r diben y cafodd ei baratoi a'i ddarparu ar gyfer y Cleient.

Ni fydd Caulmert Limited yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o unrhyw fath i unrhyw drydydd parti sydd wedi cael gwybod am yr adroddiad neu ei gynnwys, neu sydd wedi gweithredu ar sail ymwybyddiaeth ohono.

Ni cheir copïo nag atgynhyrchu unrhyw ran o'r ddogfen hon heb gael caniatâd Caulmert Limited ymlaen llaw.

Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad

TABL CYNNWYS

1.0 CYNNWYS 1

1.1 Cefndir 1
1.2 Lleoliad y Safle 2
1.3 Mynediad 3
1.4 Topograffeg 3
1.5 Llystyfiant 3
1.6 Perygl o Lifogydd 4
1.7 Yr Ardal Gyfagos 4
1.8 Dynodiadau'r Dirwedd 4
1.9 Dynodiadau Amgylcheddol 4
1.10 Dynodiadau Treftadaeth 5
1.11 Hanes Cynllunio 5

2.0 Y CYNIGION DATBLYGU 6

2.1 Y Datblygiad Arfaethedig 6
2.2 Y Broses Trin Dŵr Gwastraff a Datgomisiynu'r GTDG cyfredol 6

3.0 Y CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO 8

3.1 Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol 8
3.2 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Dinbych 2006 – 2021 11
3.3 Dogfennau Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) 13
3.4 Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 14

4.0 YSTYRIAETHAU CYNLLUNIO 15

4.1 Egwyddor Datblygu 15
4.2 Y Dirwedd a'r Effaith Weledol 15
4.3 Draenio 17
4.4 Effeithiau ar Ecoleg/Bioamrywiaeth/Coedyddiaeth 18
4.5 Dosbarthiad Tir Amaethyddol 20
4.6 Amwynder Preswyl 21
4.7 Treftadaeth 21
4.8 Trafnidiaeth, Mynediad a Pharcio 21
4.9 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio 22

5.0 DYLUNIO A MYNEDIAD 23

5.1 Cyflwyniad 23
5.2 Defnydd a Maint 23
5.3 Graddfa a Mas 23
5.4 Gosodiad 23
5.5 Deunyddiau 24
5.6 Tirweddu 24
5.7 Mynediad a Pharcio 24

6.0 CASGLIADAU..... 25

1.0 CYNNWYS

1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Caulmert Ltd wedi cael ei benodi gan Dŵr Cymru Welsh Water ("yr Ymgeisydd") i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio llawn i Gyngor Sir Dinbych (yr "Awdurdod Lleol" ar gyfer gwaith arfaethedig i osod Gwlyptir Trin Adeiledig Integredig (ICTW) a gwaith cysylltiedig yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Tremeirchion, Tremeirchion, Llanelwy, Sir Ddinbych ("y safle").

1.1.2 Gwlyptir adeiledig a system drin dŵr gwastraff yn seiliedig ar natur yw'r ICTW arfaethedig, fel estyniad i'r GTDG cyfredol. Bydd yr ICTW arfaethedig yn gwella'r amgylchedd lleol ac ansawdd dŵr yn Nalgylch Afon Clwyd yn sylweddol trwy drin yr elifiant o'r gweithfeydd trin er mwyn lleihau lefelau'r ffosffadau. Mae'r Rheoleiddiwr, sef Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi pennu targed Cyfanswm Ffosffadau o 2mg/l ar gyfer GTDG Tremeirchion, a dyluniwyd yr ICTW arfaethedig i gyflawni hynny.

1.1.3 Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn edrych yn ymarferol ar opsiynau i ddefnyddio atebion gwyrdd arloesol yn hytrach nag atebion 'llwyd' traddodiadol yn rhan o'i ymrwymiad AMP8 i leihau ei ôl troed carbon a chynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd dŵr gwastraff wrth sicrhau y cyflawnir dyddiad ymrwymiad y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP) a bennwyd gan CNC. Mae'r treial gwlyptir yn Nhremeirchion wedi esblygu yn sgil cysylltiadau agos rhwng DCWW a CNC ar raglenni samplo a chaniatâd, ac mae DCWW yn gobeithio y daw'r treial yn fodel ar gyfer atebion gwyrdd o fewn y sector gwastraff ehangach yn y dyfodol.

1.1.4 Ategir y cais cynllunio gan y dogfennau a'r planiau canlynol, a dylid ei ddarllen ar y cyd â nhw:

- Asesiad o'r Effeithiau ar Goedyddiaeth – Enfys – V1
- Cynllun Amddiffyn Coed Cyf EE_TICW_AIA
- Gwerthusiad Ecolegol Cychwynnol – Enfys Ltd – Cyf. P00013985 V3
- Gwerthusiad Ecolegol – Enfys Ltd - Cyf EE.4346.23.HT
- Datganiad Seilwaith Gwyrdd – Enfys – Cyf. EE.4346b.24.RC V3
- Datganiad y Dirwedd a Gweledol – Tirlun Barr – V4
- Cynllun Tirweddu - Sefydliad Gwy ac Wysg - Cyf V2.0 18/10/2024
- Methodoleg Plannu Gwlyptiroedd - Sefydliad Gwy ac Wysg - Cyf V4 22/08/2024
- Asesiad o'r Risg i Ddŵr Daear – WUF – V2
- Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol – Sefydiad Gwy ac Wysg - Cyf V2 14/10/2024
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu - Eric Wright - Diw P02

- Plan o Leoliad y Safle Cyf B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5000 - I1.1
- Gosodiad Arfaethedig y Safle Cyf B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5042 - I1.2
- Ffiniau'r Cais Cynllunio Cyf B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-PN1009 -12.0
- Trychiadau Arfaethedig v2.1
- Plan o'r Tanc Septig Arfaethedig Cyf. ST2.5-25000
- Manylion y Ffensys Arfaethedig Cyf SDC2010-004-I02
- Plan Llawr a Gweddlun y Cyfleuster Lles Cyf PRT_2009CXN01A
- Cynllun Draenio Cyf B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5046 - I1.0
- Gosodiad y Giât Mynediad Arfaethedig i Gae'r Fferm - Cyf B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5012 - I2.0

1.1.5 Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn dod o fewn cwmpas Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Cymru) 2017, ac o dan ddarpariaethau Rheoliad 5(1) o'r Rheoliadau EIA, cyflwynwyd cais i Gyngor Sir Dinbych (DCC) fel Awdurdod Cynllunio Lleol, i fabwysiadu Opsiwn Sgrinio o ran a yw'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad EIA ai peidio. Cyhoeddodd CSD Opsiwn Sgrinio ar 16 Awst 2024 (Cyf 47/2024/1201/EIA-SCR) sy'n cadarnhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith o bwys ar yr amgylchedd oherwydd ffactorau fel ei natur, maint a lleoliad ym marn y Cyngor. O ganlyniad, nid yw'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad sy'n galw am Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol.

1.1.6 Cyflwynwyd ymholiad cyn cynllunio i CSD ym mis Gorffennaf 2024. Rhoddodd yr ymateb a gafwyd gan CSD ym mis Awst 2024, Cyf. PREAPP/2024/039 gyngor ar y canlynol: yr egwyddor datblygu, dosbarthiad tir amaethyddol, ystyriaethau amwynder gweledol/dyluniad manwl/ graddfa/gosodiad/ymddangosiad/ tirweddu, mynediad/priffyrdd a pharcio, draenio a'r perygl o lifogydd, ecoleg a choed. Ystyriwyd y sylwadau a gafwyd gan CSD yn fanwl, a lle ystyriwyd bod hynny'n briodol, diwygiwyd dyluniad y cynllun.

1.2 Lleoliad y Safle

1.2.1 Mae safle'r cais yn cynnwys tir yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Tremeirchion, gan gynnwys rhan o'r GTDG cyfredol ac ardal o dir amaethyddol (sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion pori yn bennaf) i'r de-orllewin iddo. Mae siâp afreolaidd i'r safle ac mae ganddo arwynebedd o tua 1.25 hectar.

1.2.2 Lleolir y safle tua 750m i'r de-orllewin i bentref Tremeirchion, y tu hwnt i ffiniau anheddu'r pentref.

1.2.3 Dangosir lleoliad y safle isod, ynghyd â Phlan o Leoliad y Safle (cyf. B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5000) sy'n ategu'r Cais Drafft yma.



1.2.4 Lleolir y GTDG ar Nant Pen Isa'r Waen, nant fechan sy'n llifo i Afon Bach. Mae'r dalgylch i fyny'r llif o'r gwaith cyfredol yn fach ac yn draenio i dair ffos sy'n dod i mewn o'r Gogledd, y Dwyrain a'r De.

1.3 Mynediad

1.3.1 Mae mynedfa'r safle oddi ar Heol Tremeirchion i'r gogledd-ddwyrain ac fe'i diogelir gan giât cae o fetel. Mae hawl tramwy cyhoeddus yn rhedeg ar hyd ymyl mynedfa'r safle ac i mewn i'r cae cyfagos i'r dwyrain.

1.4 Topograffeg

1.4.1 Mae topograffeg y safle'n gymharol wastad, â goleddf bychan wrth ffin gogledd-ddwyreiniol y safle.

1.5 Llystyfiant

1.5.1 Glaswelltir amaethyddol ag amrywiaeth isel yw'r safle yn bennaf, a bydd y llwybr rhyddhau arfaethedig yn rhedeg trwy ddarn cul o goetir Conifferaidd cyfagos (sydd wedi ei dynodi'n Goetir Hynafol) yn rhan o Nant Pen Isa'r Waen, a leolir ar hyd ffin gogledd-orllewinol y safle.

1.5.2 Mae yna sawl coeden/grŵp o goed (coed Pinwydd yn bennaf) ar ffin ogleddol/gogledd-orllewinol y safle sy'n cyffinio â'r coetir, ac mae clwstwr o goed Derw yng nghornel ogledd-orllewinol y safle.

1.5.3 Mae ffin orllewinol y safle wedi ei hamgáu gan ffens ar hyn o bryd, ynghyd â choedwrych a choed aeddfed yma ac acw.

1.5.4 Mae'r cais cynllunio'n ymgorffori rhan o'r GTDG cyfredol ac yn ymestyn ar hyd y trac mynediad cyfredol hyd at safle'r fynedfa, sydd â choetir y naill ochr a'r llall iddi.

1.6 Perygl o Lifogydd

1.6.1 Yn unol â'r Map Cynghori ar Ddatblygiad, lleolir y safle'n rhannol o fewn Parth A *(yr ystyrir ei fod heb unrhyw neu fawr ddim risg o lifogydd afonol neu arfordirol/llanwol).*

1.6.2 Yn y Map Llifogydd at ddibenion Cynllunio, sydd heb ei fabwysiadu eto, cydnabyddir bod y tir y naill ochr a'r llall i'r cwrs dŵr i'r gogledd i'r safle ym Mharth Llifogydd 2 a Pharth Llifogydd 3.

1.6.3 Mae'r safle wedi ei leoli mewn Parth Gwarchod Ffynhonnell Dŵr Daear hefyd.

1.7 Yr Ardal Gyfagos

1.7.1 Lleolir y safle tua 750m i'r de-orllewin i ffin anheddu Tremeirchion, a tua 2.2km i'r gogledd-ddwyrain i Drefnant.

1.7.2 Defnyddir y tir sy'n amgylchynu'r safle at ddibenion amaethyddol yn fwy na dim, a ffermio gwartheg, llaeth a defaid yn bennaf. Mae'r safle'n cyffinio â darnau o dir amaeth (pori) i'r de ac i'r dwyrain.

1.7.3 Yr eiddo agosaf at y safle arfaethedig yw fferm a ffermdy Plas Coch (tua 325m i ffwrdd wrth y gweithfeydd cyfredol i'r gogledd-ddwyrain), yr hen ffermdy a'r busnes storio ym Mhen Isa'r Waen (tua 350m i ffwrdd i'r gorllewin) a ffermdy ac adeiladau fferm Hafod y Coed (500m i ffwrdd i'r dwyrain). Mae golygfeydd o'r safle o'r eiddo yma'n gyfyngedig oherwydd presenoldeb y coetiroedd a'r coedwrychoedd.

1.8 Dynodiadau'r Dirwedd

1.8.1 Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn Ardal Tirwedd Arbennig, ond mae tir i'r dwyrain (tua 1.2km i'r dwyrain, wrth anheddiad Tremeirchion) yn disgyn o fewn Ardal dynodedig o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB).

1.9 Dynodiadau Amgylcheddol

1.9.1 Nid oes unrhyw safleoedd ecolegol dynodedig statudol, ac mae dau safle anstatudol o fewn 1 km i'r ardal arolygu. Mae'r ardal o goetir i'r gogledd i'r safle yn Goetir Hynafol a Lled-naturiol. Lleolir Safle Bywyd Gwyllt Nant Pen Isa'r Waun 160m i'r de-orllewin i'r safle, ac mae'n barhad uniongyrchol o'r coetir sy'n cyffinio â'r safle. Lleolir Safleoedd Bywyd Gwyllt Pwll Echo 603m o'r safle. Mae dynodiadau'r ddau am eu Coetiroedd Derw.

1.10 Dynodiadau Treftadaeth

1.10.1 Lleolir y safle a'r ardal sy'n ei hamgylchynu o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru Dyffryn Clwyd (cyf. HLWC) 1 ac yn y gofrestr fe'i disgrifir fel:

Dyffryn afon llydan, tir isel â Bryniau Clwyd bob ochr iddo yng nghanol Sir Ddinbych, sy'n cynrychioli'r gorau o ardal hanesyddol nodweddiadol a mwyaf cyflawn Dyffryn Clwyd sy'n goroesi. Mae'r ardal yn cynnwys tystiolaeth sylweddol o ddefnydd tir y cyfnod cynhanesyddol diweddar a chanoloesol, ac mae'n cynnwys cadwyn amddiffynnol o Fryngaerau o Oes yr Haearn sy'n edrych i lawr dros lawr y dyffryn, sydd wedi ei nodweddu gan caeadleoedd ystadau canoloesol, aneddiadau a threfi a chestyll Dinbych a Rhuthun.

1.10.2 Nid oes yna unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn safle'r cais. Yr ased agosaf at y safle yw adeilad Rhestredig Gradd II 'Fferm y Waen' (cyfeirnod 21924) sy'n gorwedd tua 550m i'r gogledd-orllewin i'r safle.

1.11 Hanes Cynllunio

1.11.1 O edrych ar gronfa ddata Cyngor Sir Ddinbych sy'n agored i'r cyhoedd, rhestrir yr hanes cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â'r safle isod:

- Cyf 2/TRE/0363/88/P, a gafodd ganiatâd cynllunio ar 27/09/1998 i osod *Tanc Gweryd Ychwanegol i wella'r driniaeth o elifiant.*

2.0 Y CYNIGION DATBLYGU

2.1 Y Datblygiad Arfaethedig

2.1.1 Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladu cynllun Gwlyptir Trin Adeiledig Integredig (ICTW) yn GTDG cyfredol Tremeirchion, gan gynnwys:

- gosod 2 danc septig o dan y ddaear;
- creu 3 chell gwlyptir gyda phlannu;
- cyfleuster lles;
- ffordd/ffyrdd mynediad mewnol newydd;
- ffensys ymyl; a
- gwaith tirweddu.

2.1.2 Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys gweithrediadau peirianneg yn bennaf, adeiladu tair cell gwlyptir sy'n cwmpasu cyfanswm arwynebedd o tua 4,595m² a phob un â dyfnder gwlyb o tua 200mm.

2.1.3 Caiff pob un o'r celloedd gwlyptir eu plannu â rhywogaethau brodorol a fydd yn cynnig buddion o ran bioamrywiaeth. Dangosir hyn yn y Cynllun Tirweddu sy'n ategu'r cais yma.

2.1.4 Bydd pob cell gwlyptir yn cynnwys pibellwaith ynysu hydrolig fel y gellir cyflawni gwaith cynnal a chadw ar bob cell ar wahân.

2.1.5 Cynigir codi ffens rhwystro da byw o gwmpas ffiniau'r safle, a phlannu coedwrychoedd ar hyd y ffens er mwyn sicrhau gwahaniad wrth y tir amaeth cyfagos.

2.1.5 Mae'r cyfleuster lles arfaethedig yn cynnwys adeilad modwlar sy'n mesur 6m (hyd) x 2.7m (lled) x 2.5m (uchder), a gorchuddio'r arwynebau gweledol â choed llarwydd a'u gadael i aeddfedu/hindreulio'n naturiol. Bwriedir gosod yr adeilad i'r gogledd-ddwyrain i'r safle, a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion ac ymweliadau prin i'r safle. Bydd y strwythur yn ysgafn ond yn barhaol o ran ei dyluniad, a bydd ei hangen trwy gydol oes y datblygiad.

2.2 Y Broses Trin Dŵr Gwastraff a Datgomisiynu'r GTDG cyfredol

2.2.1 System gwlyptir adeiledig yw'r ICTW arfaethedig a ddylunnir i efelychu'r prosesau ffisegol, cemegol a biolegol sy'n digwydd i drin dŵr gwastraff mewn gwlyptir naturiol. Bydd hyn yn dod ag amrywiaeth eang o fuddion, gan gynnwys gwelliannau o ran bioamrywiaeth a lleihad yn yr effaith carbon, a'r brif fantais fydd hidlo'r dŵr gwastraff a thynnu maetholion, pathogenau a halogyddion eraill o'r dŵr gwastraff er mwyn bodloni gofynion rheoliadau'r hawlenni.

2.2.2 Cyflawnir triniaeth gychwynnol ar y dŵr gwastraff yn y ddau danc septig a leolir o dan lefel y ddaear. Bydd elifiant yn llifo o'r tanciau septig i brif gell y gwlyptir er mwyn ei drin. Wedyn

bydd y dŵr gwastraff yn symud yn araf bach trwy gysylltiad pibell i'r ddwy gell gwlyptir eilaidd, cyn cael rhyddhau yn y pendraw trwy bibell allfa i Nant Pen Isa'r Waen, y nant fechan sy'n llifo i Afon Bach.

2.2.3 Mae'r llwybr rhyddhau arfaethedig yn gadael y safle wrth ei ffin ogledd-orllewinol ac yn ymestyn i lawr goleddf cymharol ysgafn i Nant Pen Isa'r Waen.

2.2.4 Caiff yr ICTW ei blannu â rhywogaethau gwlyptir datblygol sy'n effeithlon iawn wrth amsugno maetholion. Mae pyllau gwlyptir mawr bas yn caniatáu ar gyfer datguddiad da i olau uwchfioled, sy'n helpu i ddadelfennu llygryddion a dileu pathogenau. Mae'r dŵr yn symud yn araf trwy'r system gwlyptir, a thrwy gyfuno hyn â'r planhigion, caniateir i solidau crog a'r llygryddion cysylltiedig fel metelau a ffosfforws anhydawdd setlo ar wely'r gwlyptir.

2.2.5 Cedwir y GTDG cyfredol fel cyfleuster wrth gefn trwy gydol y gwaith comisiynu a chyfnod tair blynedd y cytundeb techneg gweithredu (sef isafswm oes y datblygiad). Yn dilyn tair blynedd yma, ar yr amod bod y dechnoleg ICTW yn llwyddiannus, caiff y GTDG cyfredol eu datgomisiynu, ac ar ôl dymchwel yr holl adeiladau a strwythurau, caiff yr ardal ei hadu â phlanhigion gweirglodd.

2.2.6 Ac eithrio yn nhermau ei effaith weledol, ni fwriedir i'r cynnig weithredu fel amwynder cyhoeddus. Yn yr un modd â'r GTDG cyfredol, ni fydd y safle'n agored i'r cyhoedd.

3.0 Y CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

3.1 Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol

3.1.1 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024) sy'n darparu'r cyd-destun polisi ac arweiniad cyffredinol ar gyfer cynllunio yng Nghymru. Mae'n datgan taw'r prif amcan yw *"sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at ddarparu datblygiad cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall, a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd. Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda yn hanfodol i ddatblygiad cynaliadwy a chyflawni mannau cynaliadwy."*

3.1.2 Mae Pennod 1, 'Cyflwyniad' yn pennu saith nod llesiant ar gyfer Cymru gynaliadwy:

- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;*
- *Cymru lewyrchus;*
- *Cymru gydnerth;*
- *Cymru iachach;*
- *Cymru sy'n fwy cyfartal;*
- *Cymru i gymunedau cydlynus; a*
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

3.1.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r diffiniad canlynol o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru:

Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gyrff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

3.1.4 Clustnodir y deilliannau creu lle Cynaliadwy Cenedlaethol fel a ganlyn:

- *Creu a Chynnal Cymunedau;*
- *Gwneud y defnydd gorau o adnoddau:*
- *Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy;*
- *Manteisio i'r Eithaf ar Amddiffyniad Amgylcheddol a Chyfyngu ar Effeithiau Amgylcheddol;*
- *Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach.*

3.1.5 Mae Pennod 6 o PCC (paragraff 6.2.7) yn pwysleisio pwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur wrth sicrhau ansawdd dŵr, yn ogystal â'r angen am leihau llygredd cymaint â phosibl trwy glustnodi atebion sy'n seiliedig ar natur i fod yn rhan o weithgarwch ehangach ar raddfa

dalgylch i fynd i'r afael â llygredd a gwella adferiad cynefinoedd afonol a chynefinoedd eraill, neu'n eu cydategu.

3.1.6 Mae paragraff 3.58 o PCC yn datgan *"Tir amaethyddol gradd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd nad yw'n ddiderfyn ar gyfer y dyfodol.* Mae PCC yn caniatáu ar gyfer datblygu tir amaethyddol BMV lle bo angen hanfodol bwysig am y datblygiad hwnnw, a lle bo'r tir naill ai wedi ei ddatblygu eisoes, neu nad oes tir o radd amaethyddol is ar gael. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, os oes angen datblygu tir amaethyddol, a bod yna ddewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, y dylid cyfeirio'r datblygiad at dir o'r radd isaf.

3.1.7 Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)** yn cynnig arweiniad ar gadwraeth natur a datblygiadau arfaethedig. Dull cyffredinol y PCC o weithredu, a ategir gan y TAN, yw hybu cyfleoedd ar gyfer ymgorffori seilwaith bywyd gwyllt gwyrdd mewn perthynas â datblygiadau newydd.

Wrth ystyried polisïau a chynigion mewn cynlluniau datblygu lleol, ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a allai effeithio ar gadwraeth natur, dylai awdurdodau cynllunio lleol:

- *roi sylw penodol i egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys parchu terfynau amgylcheddol, defnyddio'r egwyddor o ragofal, defnyddio gwybodaeth wyddonol i hwyluso penderfyniadau, a chymryd holl gwmpas y costau a'r buddion i ystyriaeth o safbwynt hirdymor (PCC 2.2.1).*

- *cyfrannu at amddiffyn a gwella'r amgylchedd, er mwyn gwella ansawdd bywyd ac amddiffyn ecosystemau lleol a byd-eang, gan geisio osgoi effeithiau niweidiol na ellir eu gwrthdroi ar yr amgylchedd naturiol (PCC 2.3.2);*

- *hybu cadwraeth a chyfoethogi ardaloedd â dynodiad statudol a'r arfordir sydd heb ei datblygu (PCC 2.3.2);*

- *sicrhau y rhoddir pwys priodol i safleoedd dynodedig o bwys rhyngwladol, cenedlaethol a lleol (PCC 5.3.2);*

- *amddiffyn bywyd gwyllt a nodweddion naturiol yn yr amgylchedd ehangach, gan roi pwysau priodol i gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (PCC 5.2);*

- *sicrhau bod yr holl ystyriaethau materol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, a bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan wybodaeth ddigonol am effeithiau posibl datblygiadau ar gadwraeth natur (PCC paragraffau 5.5.1 a 5.5.2);*

- *sicrhau y cynhelir amrywiaeth a phoblogaeth y rhywogaethau a amddiffynnir (PCC 5.2.3, 5.5.11 a 5.5.12);*

- *mabwysiadu dull cam wrth gam er mwyn osgoi difrod i gadwraeth natur, lleihau niwed na ellir ei osgoi trwy gymryd mesurau lliniaru, gwrthbwyso niwed gweddilliol trwy fesurau digolledu a chwilio am gyfleoedd newydd i gyfoethogi cadwraeth natur; lle gallai fod effeithiau niweidiol sylweddol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol eu bodloni eu hunain bod unrhyw safleoedd amgen rhesymol lle byddai llai o ddifrod neu dim difrod o gwbl wedi cael eu hystyried yn llawn (PCC 5.2.2, 5.2.7 and 5.5.2).*

3.1.8 Bwriedir i **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 Dylunio (2016)** gynnig arweiniad ar *'Hyrwyddo cynaliadwyedd trwy ddylunio da' a 'Chynllunio ar gyfer adeiladu cynaliadwy'*. Mae'r TAN yn hybu dull cydweithredol o gyflawni dyluniad da.

3.1.9 O ran ardaloedd gwledig, mae TAN 12 yn datgan:

Y dylid cydnabod nodweddion arbennig tirwedd wledig ac arfordir Cymru. Dylid cyfoethogi'r nodweddion hyn trwy gynnal cymeriad cefn gwlad a thrwy sicrhau ansawdd mewn datblygiadau newydd.(TAN 12, 5.8.1)

3.1.10 **Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 Datblygiad a'r Perygl o Lifogydd (2004)**, yn cynnig arweiniad i ategu'r polisïau a bennwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygiadau a llifogydd. Mae TAN 15 yn cynghori pwyll mewn perthynas â datblygiadau sy'n effeithio ar y perygl o lifogydd ac yn darparu 'fframwaith o ragofal'.

Yn nhrefn blaenoriaeth, nod cyffredinol y fframwaith o ragofal yw:-

- *Cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd wrth yr ardaloedd hynny lle mae perygl uchel o lifogydd.*

- *Lle bo rhaid ystyried datblygiad mewn ardaloedd risg uchel (parth C) dim ond y datblygiadau hynny y gellir eu cyfiawnhau ar sail y profion a amlinellir yn adran 6 ac adran 7 a gaiff eu lleol mewn ardaloedd o'r fath.*

Mae gweithrediad y fframwaith o ragofal yn cael ei lywodraethu gan:

- *Fap cynghori ar ddatblygiad sy'n cynnwys tri pharth (A, B a C sy'n ymrannu'n C1 a C2) a ddylai gael ei ddefnyddio i sbarduno'r profion cynllunio priodol mewn perthynas ag adrannau 6 a 7 ac atodiad 1.*

- *Diffiniadau o ddatblygiad bregus a chyngor ar ddefnydd a ganiateir mewn perthynas â lleoliad datblygiad a goblygiadau o ran llifogydd.*

3.1.11 **Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 Gwastraff (2014)**, yn cynnig arweiniad ar sut y dylai penderfyniadau cynllunio *gyfrannu at reolaeth gynaliadwy ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau.*

3.1.12 Dylid penderfynu ar gynigion datblygu yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau materol yn dynodi fel arall yn unol ag adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

3.2 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Dinbych 2006 – 2021

3.2.1 Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn mynnu bod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau materol yn dynodi fel arall.

3.2.2 Yn yr achos yma, y Cynllun Datblygu Statudol sy'n berthnasol i'r cynnig yw Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Dinbych 2006 - 2021 (y "CDLl") (a fabwysiadwyd ym Mehefin 2013).

3.2.3 Yn ôl y CDLl, lleolir y safle mewn ardal o Gefn Gwlad Agored, y tu hwnt i unrhyw ffiniau datblygu.

3.2.4 Polisïau'r CDLl sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig yw'r canlynol, a darperir crynodeb o bob polisi isod:

- Polisi RD1 – Datblygu cynaliadwy a dyluniad o safon dda
- Polisi RD5 – Y Gymraeg a ffabrig cymdeithasol a diwylliannol cymunedau
- Polisi VOE 2 - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol
- Policy VOE5 – Cadwraeth adnoddau naturiol
- Policy VOE 6 - Rheoli Dŵr

3.2.5 Mae Polisi RD1: Datblygu cynaliadwy a dyluniad safonol da yn datgan, i'r fath raddau ag y bo'n berthnasol i'r cynigion datblygu:

Y cefnogir cynigion datblygu o fewn ffiniau datblygu, ar yr amod y bodlonir yr holl feini prawf canlynol:

i) Yn parchu'r safle a'i amgylchoedd yn nhermau lleoliad, gosodiad, graddfa, ffurf, cymeriad, dyluniad, deunyddiau, gwedd, microhinsawdd a dwysedd defnydd y tir/adeiladau a'r gofod o gwmpas a rhwng adeiladau; ac

(iii) Yn amddiffyn, a lle bo modd, yn cyfoethogi'r amgylchedd naturiol a hanesyddol lleol; ac

(iv) Nid yw'n effeithio ar olygfeydd y cyhoedd i mewn, allan neu ar draws unrhyw anheddiad neu ardal o gefn gwlad agored mewn ffordd sy'n annerbyniol; ac

(v) Yn ymgorffori'r dirwedd gyfredol neu nodweddion eraill, gan gymryd cyfuchliniau a newidiadau mewn lefel ar y safle a nenlinellau amlwg i ystyriaeth; ac

(viii) Yn darparu mynediad diogel a chyfleus i bobl anabl, cerddwyr, beicwyr, cerbydau a cherbydau brys, ynghyd â digon o le i barcio, gwasanaethau a lle i droi. Dylai'r cynigion ystyried hefyd effeithiau ar y rhwydwaith ehangach o Hawliau Tramwy sy'n amgylchynu'r safle; ac

(ix) Nid yw'n cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol oherwydd tagfeydd, peryglon a niwsans sy'n deillio o'r traffig a gynhyrchir a'i fod yn ymgorffori mesurau rheoli/tawelu traffig lle bo angen a lle bo hynny'n briodol. Bydd angen cyflawni asesiad trafnidiaeth a chynllun teithio lle bo hynny'n briodol; ac

(xi) Nid yw'n cyfaddawdu tir neu adeiladau sy'n cael eu diogelu at ddefnyddiau eraill nac yn amharu ar ddatblygu a defnyddio tir cyfagos; ac

(xii) Yn bodloni ystyriaethau amgylcheddol ffisegol neu naturiol sy'n ymwneud â sefydlogrwydd y tir, draenio a'r tebygolrwydd o lifogydd, cyflenwi dŵr a chodi dŵr o gwrs dŵr naturiol; ac

(xiv) Yn ymgorffori mesurau tirweddu addas, gan gynnwys lle bo'n briodol, triniaethau tirweddu caled a meddal priodol, creu a/neu amddiffyn coridorau gwyrdd a glas, tirweddu aeddfed, a threfniadau ar gyfer cynnal a chadw yn sgil hynny. Dylai tirweddu greu amgylchedd sy'n ddeniadol i'r llygad, yn gynaliadwy ac yn gyfoeth o fioamrywiaeth sy'n amddiffyn ac yn cyfoethogi nodweddion cyfredol y dirwedd ac yn creu nodweddion newydd ac ardaloedd o dir agored sy'n adlewyrchu nodweddion lleol a'r ymdeimlad o le; ac

(xv) Yn cymryd cynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff i ystyriaeth.

3.2.6 Mae Polisi RD5 – Y Gymraeg a ffabrig cymdeithasol a diwylliannol cymunedau, yn datgan:

Wrth benderfynu ar bob cais cynllunio, cymerir anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg i ystyriaeth. Gellir gwrthod datblygiad os credir y gallai ei faint, graddfa neu leoliad achosi difrod sylweddol i gydbwysedd cymeriad ac iaith cymuned. Er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ar geisiadau a allai effeithio ar ddyfodol yr iaith Gymraeg mewn cymunedau, bydd disgwyl fel rheol i ymgeiswyr gyflwyno:

i) Datganiad Ieithyddol Cymunedol i ategu cais cynllunio ar gyfer datblygiadau llai o fewn pentrefi, pentrefannau neu mewn cefn gwlad agored sy'n cynnwys cynigion o'r mathau canlynol: 5 uned preswyl neu ragor, datblygiad masnachol, diwydiannol neu hamdden/twristiaeth ag arwynebedd llawr o 1000m² neu fwy, datblygiad sy'n debygol o olygu colli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth, prosiectau seilwaith ag effeithiau hirdymor ar y gymuned;

ii) Asesiad mwy manwl ar ffurf '"Asesiad o Effeithiau Cymunedol ac Ieithyddol" i ategu cais cynllunio ym mhob setliad lle mae datblygiadau graddfa fwy sy'n cynnwys cynigion o'r mathau canlynol: 20 uned preswyl neu ragor, datblygiad masnachol, diwydiannol neu hamdden/twristiaeth ag arwynebedd llawr o 3000m² neu fwy, prosiectau seilwaith graddfa fawr ag effeithiau hirdymor ar y gymuned.

Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu arwyddion dwyieithog o leiaf er mwyn hybu'r Gymraeg. O dan amodau priodol, cymerir camau lliniaru i amddiffyn rhag unrhyw effeithiau andwyol trwy fynnu cyfraniad ariannol o dan Adran 106 neu ddulliau eraill.

3.2.7 Mae Polisi VOE5: Cadwraeth ac adnoddau naturiol yn datgan:

Y bydd angen i gynigion datblygu a allai effeithio ar rywogaethau a amddiffynnir neu safleoedd cadwraeth natur dynodedig gael eu hategu gan ddatganiad bioamrywiaeth y mae angen iddo ystyried dyheadau bioamrywiaeth y Sir o ran cynnal, gwella ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau.

Lle bo buddion cyffredinol datblygiad yn drech na buddion cadwraeth safle natur a amddiffynnir yn lleol, dylai mesurau lliniaru a gwella ar y safleoedd hyn neu'n agos atynt fod yn rhan annatod o'r cynllun.

Os oes angen, dylid sefydlu'r mesurau angenrheidiol i liniaru effeithiau andwyol tebygol ar nodweddion cymwys safleoedd dynodedig statudol cyn dechrau'r datblygiad. Diogelir y mesurau angenrheidiol i wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol tebygol trwy amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio.

Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion datblygu sy'n debygol o achosi difrod sylweddol i nodweddion cymwys safleoedd cadwraeth natur dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, cynefinoedd blaenoriaeth, rhywogaethau blaenoriaeth, safleoedd geoamrywiaeth o bwys rhanbarthol, neu rywogaethau sydd mewn perygl.

3.2.8 Mae Polisi VOE 6: Rheoli Dŵr yn datgan:

Y bydd gofyn i bob datblygiad ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr lle bo hynny'n ymarferol. Dylai cynigion datblygu mawr (ag arwynebedd llawr o fwy na 711,00m^2 neu 10 anheddiad) gael eu hategu gan Ddatganiad Cadwraeth Dŵr.

Bydd gofyn i bob datblygiad ddileu neu leihau'r dŵr wyneb ffo o'r safle lle bo hynny'n ymarferol. Dylai graddfa'r dŵr ffo o'r safle gynnal neu leihau'r raddfa cyn y datblygiad

3.3 Dogfennau'r Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA)

3.3.1 Mae'r Nodiadau Canllawiau Cynllunio Ategol yn berthnasol i'r datblygiad a gynigir hefyd.

CCA Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth (Gorffennaf 2016)

3.3.2 Mae'r CCA yma'n ategu polisïau RD1, VOE1 a VOE5 y CDLl. Mae'n datgan *Y dylai arolygon a gwaith asesu ecolegol gael eu cyflawni ar gam cynnar yn rheolaeth y prosiect fel bod modd diwygio dyluniad, gosodiad neu blan y cynnig yn gyson â chanlyniadau ac argymhellion.*

3.3.3 Mae'r CCA yn cynnig canllawiau ychwanegol am lefel y wybodaeth ecolegol y bydd Sir Ddinbych yn ei disgwyl i gydategu ceisiadau cynllunio.

CCA Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol (Mawrth 2017)

3.3.1 Mae'r CCA yma'n ategu polisi RD1 y CDLl ('Datblygu cynaliadwy a dyluniad o safon dda'). Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gynigion datblygu ac yn datgan bod yn rhaid i ddatblygiad "*Ystyried diogelwch personol a chymunedol yn nyluniad a gosodiad datblygiadau a mannau cyhoeddus/preifat, a thalu sylw i'r goblygiadau o ran troseddau ac anhrefn".*

3.3.2 Mae'n datgan y dylid ystyried egwyddorion cynllunio ar gyfer diogelwch y gymuned yn rhan o'r cam dylunio, ac y dylid cymhwyso hyn i bob math o ddatblygiad.

3.3.3 Mae'r egwyddorion dylunio a bennir yn y CCA yn seiliedig ar fenter heddlu'r DU 'Diogel trwy Ddyluniad', sydd â'r nod o wella diogelwch y gymuned trwy ddyluniad da, ac sydd wedi cyhoeddi canllawiau dylunio manwl ar gyfer y rhai sydd ynghlwm wrth y broses ddylunio.

CCA Coed a Thirweddu (Gorffennaf 2016)

3.3.4 Mae'r CCA yma'n ymwneud â chynigion datblygu a fyddai'n achosi difrod a/neu'n golygu dymchwel coed arwyddocaol yn amhriodol. Mae'r CCA yn datgan bod:

Rhaid i ddatblygiadau a gynigir ger coed, coetiroedd neu wrychoedd cyfredol fod yn gyson â'r egwyddorion dylunio ac amddiffyn a bennir yn y Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol yma a BS 5837: 2012 "Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu - Argymhellion" (neu unrhyw ddiwygiadau diweddarach iddi).

3.3.5 Yn achos 'Cynlluniau Graddfa Fawr', mae'r CCA yn argymell bod ceisiadau cynllunio'n cael eu hategu gan arolwg o'r coed; asesiad o'r goblygiadau o ran coed (AIA); Cynllun Amdiffyn Coed; a datganiad o'r dulliau gweithredu o ran Coedyddiaeth).

3.4 Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.4.1 Mae Cyngor Sir Dinbych yn y broses o gynhyrchu CDLl newydd (y "strategaeth a ffefrir") a chynhaliwyd ymgynghoriad ar hyn yn ddiweddar. Am fod y CDLl newydd ar gam cynnar yn y broses o gael ei lunio, cyfyngedig yw'r pwysau y gellir eu rhoi i'r polisïau drafft sydd ynddo. Ond mae'r strategaeth a ffefrir yn pennu bwriad y Cyngor i reoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy gan ddweud:

Rhaid i gynigion cefnogi atal gwastraff yn y lle cyntaf, a lle nad yw hynny'n bosibl, ***lleihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.***

Rhaid i gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddangos sut y maen nhw'n hwyluso symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff, cael eu hategu gan dystiolaeth o angen, a dangos sut nad ydyn nhw'n cael effaith annerbyniol ar amwynder.

4.0 YSTYRIAETHAU CYNLLUNIO

4.1 Egwyddor Datblygu

4.1.1 System gwlyptir adeiledig sy'n cael ei yrru gan ddisgyrchiant yw'r ICTW arfaethedig. Fe'i dyluniwyd i efelychu'r prosesau ffisegol, cemegol a biolegol sy'n digwydd at ddibenion trin dŵr gwastraff mewn gwlyptir naturiol. Bydd yn cyflwyno system drin sy'n seiliedig ar natur sy'n derbyn elifion wedi setlo o'r tanciau septig arfaethedig. Bydd yr ICTW arfaethedig yn gwella'r amgylchedd lleol ac ansawdd dŵr o fewn Dalgylch Afon Clwyd yn sylweddol trwy drin yr elifion o'r gweithfeydd trin er mwyn lleihau lefelau'r ffosffadau.

4.1.2 Mae system gategoreiddio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a ddiweddarwyd yn 2021, yn rhoi statws cymedrol i Afon Clwyd ar gyfer y mwyafrif o'i hyd. Mae GTDG Tremeirchion yn llifo i Nant Pen Isa'r Waen, sy'n llifo i Afon Bach, sef un o isafonydd Afon Clwyd ~800m i lawr y llif o'r gweithfeydd. Casgliad CNC yw na chyflawnwyd statws 'da' am fod gormod o ffosffadau yn y dalgylch. Pennwyd targed Cyfanswm Ffosffadau o 2mg/l ar gyfer GTDG Tremeirchion, a dyluniwyd yr ICTW arfaethedig â'r nod o gyflawni hyn.

4.1.3 Mae gwlyptiroedd integredig i wella a rheoli dŵr budr wedi cael eu sefydlu'n llwyddiannus ar draws Lloegr ac Iwerddon, ac ystyrir eu bod yn bodloni'r diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy ac ategir hynny gan bolisïau cenedlaethol a lleol. Mae Pennod 6 o PCC yn pwysleisio pwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur wrth ddarparu ansawdd dŵr, yn ogystal â'r angen am leihau llygredd cymaint â phosibl trwy glustnodi atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n rhan o, neu'n cydategu gweithgarwch ehangach ar raddfa dalgylch er mwyn mynd i'r afael â llygredd a gwella adferiad cynefinoedd afonol a chynefinoedd eraill.

4.1.4 Cadarnhaodd ymateb CSD i'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais (Cyf PREAPP/2024/039) safbwynt y Cyngor bod yna gefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu wlyptir sy'n seiliedig ar natur fel dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn y lleoliad hwn.

4.2 Y Dirwedd a'r Effaith Weledol

4.2.1 Ategir y Cais Cynllunio Drafft yma gan Ddatganiad ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol a baratowyd gan Tirlun Barr, sy'n asesu cyd-destun y dirwedd, ac effaith y datblygiad arfaethedig ar y dirwedd a'i weladwyedd.

4.2.2 Tir amaethyddol yw'r tir cyfagos, sy'n cynnwys tir fferm o gaeau maint canolig wedi eu ffinio gan goedwrychoedd sydd wedi eu cynnal yn dda, gan gynnwys coedwrychoedd a choed maes, coed Derw a choetiroedd bychain a llystyfiant glan dŵr sy'n dilyn y nentydd lleol i lawr i waelod y dyffryn ac i Afon Clwyd yn y gorllewin.

4.2.3 Mae Asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o'r Dirwedd Genedlaethol (yn seiliedig ar Nodweddion LANDMAP) yn cadarnhau bod ardal y safle arfaethedig mewn lleoliad canolog o fewn ffiniau Ardal 11 - Dyffryn Clwyd, a phennir y disgrifiad cryno isod:

Mae tirwedd Dyffryn Clwyd yn yr ardal hon yn dangos nodweddion mwy coediog ac ystâd goediog fwy cadarn ar y lawr gwastad y dyffryn sy'n ymdonni'n ysgafn. Mae coed y coedwrychoedd yn nodweddu'r ardal ag effaith goedio gadarn, ac yn darparu cyfyngiadau gweledol da o ran golygfeydd i mewn ac allan o'r ardal. Mae patrwm o gaeau maint bach i ganolig yn rhoi golwg amaethyddol gwledig iawn i'r ardal gyda phwyslais cynyddol ar dda byw yn hytrach na ffermio âr i'r de i'r ardal. Mae'r anheddiadau'n gyfyngedig i ambell i bentref/tref farchnad fechan. Ffyrdd gwledig cymharol dawel yw'r cysylltiadau trafnidiaeth trwy'r ardal ar y cyfan, gyda'r coedwrychoedd a'r choed sydd bob ochr iddynt yn ategu'r cymeriad gwledig, ardal ddeniadol a sefydlog ar y cyfan.

4.2.4 Lleolir y safle mewn Ardal o Agweddau a Nodweddion Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP - cyfeirnod DNBGHVS031, â gwerthusiad Gweledol a Synhwyraidd Uchel gyda thirwedd ddiffiniedig a thirwedd amaethyddol o lystyfiant pori â golygfeydd deniadol ar draws yr ardal sy'n aml yn cael eu fframio gan flociau a llystyfiant a choetiroedd aeddfed yma ac acw.

4.2.5 Lleolir y safle a'r ardal sy'n ei hamgylchynu o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru Dyffryn Clwyd. Heblaw hynny, nid yw'r safle mewn ardal o dirwedd ddynodedig arall, ac nid yw'n dirwedd a amddiffynnir.

4.2.6 Ni fydd y safle'n agored i'r cyhoedd, ac am fod y tir fferm sy'n ei amgylchynu mewn perchnogaeth breifat i bob pwrpas, ac am nad oes fawr ddim Llwybrau Cyhoeddus neu ardaloedd o dir sy'n agored i'r cyhoedd yno, cyfyngedig yw'r mynediad cyhoeddus i gyffiniau'r safle arfaethedig.

4.2.7 Mae'r coetir i'r gogledd i'r datblygiad arfaethedig yn amgáu'r safle ac yn cuddio'r safle o'r ardal uniongyrchol ac amgylchynol i'r gogledd, sef yr ardal lle mae'r tebygolrwydd uchaf o'i weld o'r briffordd.

4.2.8 Yr eiddo agosaf at y safle yw Plas Coch, Pen Isa'r Waen, Porthdy Hafod y Coed a Hafod y Coed, ac nid oes modd gweld y safle cyfredol o'r safleoedd hyn ar hyn o bryd oherwydd presenoldeb y llystyfiant cyfredol a'r cyfosodiad, hyd yn oed pan nad oes dail ar y coed dros y gaeaf.

4.2.9 Mae Llwybr Estynedig Clawdd Offa sydd o Bwys Rhyngwladol dros 2.5m i ffwrdd yn ei bwynt agosaf at y safle, Mae'r llwybr yn cynnig golygfeydd helaeth tua'r gorllewin a dros hyd y Dyffryn, ond nid oes modd gweld y safle cyfredol na'r un arfaethedig o'r llwybr oherwydd ei graddfa fechan, yr haenau o lystyfiant sydd yn y cwm a'u cyfosodiad.

4.2.10 Er taw'r cyfleuster lles arfaethedig yw'r strwythur arfaethedig mwyaf ar y safle, mae'n fach o ran maint ac yn syml o ran ei ffurf, a gorchuddir y dyluniad â phren Llarwydd. Y disgwyl yw na fydd modd ei weld, a gyda'r coedwrychoedd a'r coed y bwriedir eu plannu, ystyrir y bydd nodweddion cyfredol y dirwedd (a'r haenau o goedwrychoedd) yn cael eu hategu gan ei weithrediad. Lleolir y cyfleuster lles mewn rhan o'r safle sydd wedi ei ddatblygu eisoes, ac felly os yw'n weladwy, bydd hynny'n gyson â chyd-destun y GTDG cyfredol.

4.2.11 Mae'r LVS yn crynhoi na fydd graddfa fach a dylanwad gweledol cyfyngedig y cynnig a'r cyd-destun gwledig yn amharu ar y dirwedd sy'n ei hamgylchynu, cymeriad y golygfeydd yn yr ardal, nac yn cyflwyno unrhyw nodweddion newydd sy'n groes i'r dirwedd ehangach.

4.2.12 Casgliad yr LVS yw y bydd yna **Effaith Niwtral** ar gymeriad y dirwedd yn sgil y cynigion h.y. dim gwahaniaeth amlwg - sy'n golygu y byddai'r cynnig yn cydategu graddfa, tirffurf a phatrwm y dirwedd gyfredol ac na fyddai'n cael effaith negyddol ar ansawdd na chymeriad y dirwedd o dan sylw.

4.2.13 Categoreiddiwyd maint yr effaith fel **Dibwys** – hynny yw, na ddisgwylir y bydd y datblygiad neu'r gwaith neu'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn weladwy dros ben lefelau'r gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd, nac o ran cyd-destun gwledig yr ardal o ran pyllau, gwrychoedd ac ati.

4.2.14 O ran Effaith Weledol, rhagwelir y bydd yna **Effaith Niwtral**: h.y. dim gwahaniaeth amlwg nac effaith ar grwpiau o dderbynyddion sensitif (gan gynnwys derbynyddion o fewn yr AHNE neu eiddo cyfagos) yn sgil y datblygiad arfaethedig oherwydd ei raddfa gyfyngedig a natur y cynnig sydd wedi ei amgáu gan lystyfiant brodorol aeddfed a sefydlog a fydd yn atal dylanwad gweledol ehangach.

4.2.15 Ychydig o lygredd golau sy'n dod o ardal y safle â graddfa o rhwng 0-5 ac 1 (Nano Watt/cm²/sr) ac ni ddisgwylir i'r cynnig gynhyrchu unrhyw newid ychwanegol i'r statws Wybren Dywyll cyfredol oherwydd y goleuadau cefndir amgylchynol sydd eisoes yn bresennol, a'r ffaith nad oes unrhyw oleuadau'n rhan o'r datblygiad arfaethedig.

4.2.16 Mae'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn nhermau'r dirwedd ac mae'n cydymffurfio â gofynion meini prawf iii ac xvi o Bolisi RD 1.

4.3 Draenio

4.3.1 Mae'r safle'n gorwedd o fewn Ardal Amddiffyn Dŵr Daear. Mae yna Asesiad o'r Risg i Ddŵr Daear yn ategu'r Cais Drafft yma ac fe'i defnyddiwyd i lywio dyluniad y cynllun. Argymhellir gosod leinin o glai ar hyd sylfaen ac ochrau'r gwlyptir er mwyn gweithredu fel haen led-anhydraidd effeithiol er mwyn atal gollyngiadau o'r gwlyptir. Bydd y leinin yn cynnwys clai o'r safle wedi ei gywasgu i greu haen â hydred isel iawn. Casgliad yr Asesiad o'r Risg i Ddŵr Daear yw *"Mae efelychiadau ceidwadol o ran ffawd a thrafnidiaeth (gan ganiatáu ar gyfer ymrannu pridd a dŵr heb fesurau bioddiraddio) yn caniatáu bod leinin 0.5m o drwch wedi ei greu o ddeunydd clai a gafwyd o'r safle yn addas i atal llygryddion rhag hidlo i'r Ddyfrhaen Tywodfaen o fewn amserlen model o 1,000 o flynyddoedd."*

4.3.2 Nid yw'r safle mewn perygl o lifogydd o afonydd, nac o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain, ac mae'n addas ar gyfer ICTW o dan y gofynion o ran y risg o lifogydd.

4.3.3 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi cael ei ddylunio mewn ffordd sensitif, ac ni chaiff unrhyw effaith andwyol ar y perygl o lifogydd, na dŵr daear, fel y mae'r Asesiad o Risg i Ddŵr Daear yn ei nodi.

4.3.4 Polisi VOE 6: Mae Rheoli Dŵr yn gofyn am ddatblygiad i ddileu neu leihau'r dŵr wyneb ffo o'r safle, lle bo hynny'n ymarferol, a dylai graddfa'r dŵr ffo oddi ar y safle gynnal neu wella'r raddfa cyn y datblygiad.

4.3.5 Mae Cynllun Draenio'n ategu'r Cais Cynllunio Drafft yma sy'n dangos sut y caiff draenio dŵr wyneb ei reoli ar y safle, a bydd DCWW yn cyflwyno cais i'r Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) maes o law. Mae'r datblygiad yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion perthnasol Polisi VOE 6.

4.3.6 Mae'r cais wedi dangos y gellir cyflawni dyluniad a gosodiad priodol ar gyfer y system gwlyptir a fydd yn bodloni ystyriaethau amgylcheddol naturiol mewn perthynas â sefydlogrwydd y tir, draenio a'r tebygolrwydd o lifogydd, yn unol â maen prawf xiii o Bolisi RD1.

4.4 Effeithiau ar Ecoleg/Bioamrywiaeth/Coedyddiaeth

4.4.1 Ategir y Cais Drafft yma gan Werthusiad Ecolegol Cychwynnol (PEA) a baratowyd gan Enfys Ecology Cyf EE.4346.24.RC, sy'n canolbwyntio ar ardal y celloedd gwlyptir arfaethedig a'r ardal o goetir yng nghyffiniau uniongyrchol y llwybr rhyddhau arfaethedig, gan gynnwys yr ardaloedd tua 50 metr i fyny ac i lawr y llif o'r pwynt rhyddhau.

4.4.2 Nid oes unrhyw safleoedd ecolegol dynodedig statudol, ac mae dau safle anstatudol o fewn 1 km i ardal yr arolwg. Lleolir Safle Bywyd Gwyllt Nant Pen Isa'r Waun 160m i'r de-orllewin i'r safle, ac mae'n barhad uniongyrchol o'r coetir sy'n cyd-ffinio â'r safle. Lleolir Safleoedd Bywyd Gwyllt Pwll Echo 603m o'r safle. Mae'r gan y dynodiad am eu Coetir Derw, a chasgliad y PEA yw na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar y naill na'r llall o'r dynodiadau hyn.

4.4.3 Mae'r safle ei hun yn cynnwys glaswelltir gwell sydd o werth ecolegol isel. Mae amrywiaeth y glaswelltir pori agored yn gyfyngedig, ac mae'r coedwrychoedd sy'n ei amgylchynu (dim ond rhan ohoni sy'n cyd-ffinio ag ardal y datblygiad arfaethedig) yn wael o ran rhywogaethau ac mewn cyflwr gwael yn gyffredinol.

4.4.4 Caiff yr holl laswelltir wedi ei wella ar y safle ei golli, ond caiff y rhan fwyaf ei ddisodli gan gynefinoedd gwerth uwch, ac felly ystyrir ei bod yn gwella'r cynefin yma. Yn ogystal, collir ardal fach o laswelltir i greu traciau mynediad newydd, ond caiff ansawdd cyffredinol y cynefinoedd ar y safle ei gwella'n sylweddol gan y gwaith arfaethedig.

4.4.5 Mae yna ardal o goetir llydanddail ar ffin ogleddol ardal y gwlyptir arfaethedig, a chofrestrwyd hyn fel Coetir Hynafol ar y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Mae'r llwybr rhyddhau arfaethedig yn rhedeg trwy ryw ddeg metr o'r coetir yma i ymuno â Nant Pen Isa'r Waen. Bydd y penwal arfaethedig yn effeithio ar ran fechan o'r Coetir Hynafol yma, a bydd hyn yn cynnwys tynnu rhai o'r coed â diamedr llai a dwy goeden categori U. Mae'r Asesiad cysylltiedig o Effaith ar Goedyddiaeth (AIA) yn cadarnhau bod llawer o'r coed ynn yn y rhan yma o'r coetir wedi eu llethu gan Iorwg, ac mae rhai ohonynt yn dangos arwyddion clir o glefyd coed ynn. O dan y coed yn yr ardal yma mae yna garped digon dinod o iorwg trwchus ac ambell i lasbren. Bydd yr effeithiau ar y coetir yn fach iawn ac yn gyfyngedig i ardal gul, a chasgliad y PEA felly yw y bydd yna golled digon dinod o'r cynefin yma, a dim colledion o ran gweithrediad y cynefinoedd o ganlyniad i hynny.

4.4.6 Er mwyn lleihau'r effaith ar y coed o amgylch y llwybr rhyddhau arfaethedig, mae'r AIA cysylltiedig yn argymell defnyddio dulliau adeiladu ag effaith isel wrth adeiladu'r penwal newydd fel micro-gloddiwr a phlatiau tracio, neu fel arall i unrhyw waith cloddio gael ei gyflawni â llaw. Mae'r llwybr rhyddhau arfaethedig yn un o dri llwybr rhyddhau a archwiliwyd (gweler y gwerthusiad Ecolegol Cyf EE.4346.23.HT) ac ystyriwyd taw hwn oedd y llwybr gorau yn nhermau topograffeg ac yn nhermau cael yr effaith leiaf ar y coed cyfagos. Bydd DCWW yn ymrwymo i ddull adeiladu heb gloddio wrth gyflawni'r gwaith ailbroffilio arfaethedig ar y trac mynediad i fyny i'r GTDG.

4.4.7 Er bod y PEA yn dynodi bod yna nifer o goed yn y coetir ac ar hyd ffiniau'r caeau sydd â nodweddion clwydo posibl ar gyfer ystlumod, ni welwyd unrhyw nodweddion clwydo addas yn y coed ar hyd y llwybr rhyddhau arfaethedig. Os ceir bod yna nodweddion addas mewn unrhyw goed y byddai angen eu dymchwel neu eu tocio, yna byddem yn ymgynghori ag Ecolegydd trwyddedig priodol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

4.4.8 Mae'r PEA yn nodi bod y coetir, y coed ar hyd ffiniau'r caeau a'r darnau mwy cyflawn o goedwrychoedd yn cynnig cynefinoedd nythu a fforio addas ar gyfer amrywiaeth o adar. Gwelwyd arwyddion o weithgarwch moch daear yn agos at y safle, ac mae yna botensial ar gyfer fforio ac adeiladu deyerydd yn y coetir cyfagos hefyd.

4.4.9 Ni welwyd unrhyw rywogaethau anfrodorol goresgynnol o fewn ardal yr arolwg na'r amgylchoedd uniongyrchol.

4.4.10 Mae gan y gwaith arfaethedig y potensial i effeithio ar y safle dynodedig anstatudol a statudol canlynol o ran cadwraeth natur: Safle Bywyd Gwyllt Nant Pen Isa'r Waen. Mae'r Safle Bywyd Gwyllt yma'n barhad uniongyrchol o'r coetir llydanddail a leolir 160m i'r de-orllewin. Mae'r PEA yn cadarnhau, er na fydd yna unrhyw effaith uniongyrchol ar y Safle Bywyd Gwyllt yma, mae yna gysylltiad hydrolegol â hi ac felly mae yna risg y gallai unrhyw ddŵr ffo o'r gwaith effeithio ar y Safle Bywyd Gwyllt. Nodwyd bod y nant eisoes yn lleidiog iawn, ac felly byddai cyfeintiau bach o fewnlif o sediment yn ystod y gwaith adeiladu'n annhebygol o gael effaith sylweddol na pharhaus arni.

4.4.11 Mae adran 6.3 o'r PEA yn clustnodi cyfres o fesurau lliniaru y dylid eu mabwysiadu yn rhan o'r cynnig er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar nodweddion bioamrywiaeth. Nodir manylion y rhain isod.

4.4.12 Caiff coedwrychoedd eu plannu ar hyd ffiniau newydd y safle, a fydd yn digolledu am unrhyw goed a gollir, yn darparu gwelliannau cyffredinol i gynefinoedd, ac yn gwella cysylltedd cynefinoedd ar draws y safle. Darperir manylion y coedwrychoedd hyn yn y Cynllun Tirweddu ac maent yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau brodorol priodol.

4.4.13 Er mwyn digolledu am golli nodweddion a allai gael eu defnyddio gan adar nythu, er enghraifft wrth glirio coed yn ystod y gwaith (a fyddai'n golygu colli cyfleoedd nythu o fewn y safle nes i'r coedwrychoedd newydd aeddfedu'n ddigonol o leiaf), caiff blychau adar eu hymgorffori wrth ymyl ac yn wynebu ardaloedd o goed, yn unol ag argymhellion y PEA.

4.4.14 Caiff y celloedd gwlyptir arfaethedig eu plannu â chymysgedd o blanhigion dyfrol brodorol newydd/planhigion plygio glan dŵr (fel a glustnodwyd yn y Cynllun Tirweddu) a fydd yn cynyddu amrywiaeth o fewn y safle yn fawr iawn. Bydd y celloedd gwlyptir yn creu cynefinoedd addas ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid di-asgwrn cefn, amffibiaid ac ymlusgiaid hefyd.

4.4.15 Cynigir bod yr ardal laswelltog a gedwir yn ei chyfanrwydd yn cael ei hadu â chymysgedd o hadau glaswelltir a blodau gwyllt, a fydd, o'i gyfuno â threfn rheoli briodol, yn cyfoethogi'r bioamrywiaeth ar draws y safle eto fyth.

4.4.16 I grynhoi, bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar tua 11.ha o'r glaswelltir wedi ei wella; daw tua 0.6ha yn gelloedd gwlyptir, a chedwir y rhan fwyaf o'r glaswelltir, gydag ardal fechan yn cael ei cholli er mwyn creu traciau mynediad. Bydd y llwybr rhyddhau ardal y gwlyptir yn rhedeg trwy ddarn bach o goetir cyfagos; bydd angen clirio neu docio nifer fechan o goed o werth isel, ond ni chollir unrhyw orchudd coetir ar y cyfan. Trwy greu celloedd gwlyptir, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau, coedwrychoedd, a chodi blychau adar, bydd y datblygiad arfaethedig yn dod ag enillion net o ran bioamrywiaeth.

4.4.17 Mae'r datblygiad yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion maen prawf xiii Polisi RD1, Polisi VOE 1 a Pholisi VOE 5, yn ogystal â Phennod 6 o PCC.

4.5 Dosbarthiad Tir Amaethyddol

4.5.1 Tir amaethyddol yw 1.13 ha o gyfanswm arwynebedd y safle (1.25ha), ac mae'n cael ei ddefnyddio fel tir pori ar hyn o bryd. Mae Map 2 Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) Rhagfynegol Llywodraeth Cymru'n gosod yr ardal yma o dir amaethyddol yn y categori Gradd 3a yn fras.

4.5.2 Mae Nodyn Canllaw Map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol (Cymru) (Tachwedd 2017) yn nodi, lle bo'r tir amaethyddol Gorau Mwyaf Amlddefnydd (BMV) dan ystyriaeth, y gellir defnyddio'r radd ragfynegol a'i derbyn fel y wybodaeth gorau sydd ar gael.

4.5.3 Mae PCC yn caniatáu ar gyfer datblygu tir amaethyddol BMV lle bo angen hanfodol bwysig am y datblygiad, a lle bo'r tir naill ai wedi ei ddatblygu eisoes, neu lle nad oes tir o radd amaethyddol is ar gael. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, os oes angen datblygu tir amaethyddol, a bod yna ddewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, y dylid cyfeirio'r datblygiad at dir o'r radd isaf.

4.5.4 Mae yna angen pwysig clir ar gyfer y datblygiad arfaethedig, o ran bod ei angen er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP), a bod ei angen er mwyn gwella statws Afon Clwyd, a chyflawni'r targed o ran cyfanswm y Ffosffad. Mae angen lleoli'r datblygiad arfaethedig yn gyfagos â'r GTDG cyfredol, ac nid oes unrhyw ddewis o ran safle yma. Am hynny, bodlonwyd y profion a bennwyd ar gyfer colli tir BMV yn PCC.

4.6 Amwynder Preswyl

4.6.1 Yr eiddo agosaf at safle'r cais yw fferm a ffermdy Plas Goch (tua 325m i ffwrdd wrth y gweithfeydd cyfredol i'r gogledd-ddwyrain), yr hen ffermdy a'r busnes storio ym Mhen Isa'r Waen (tua 350m i ffwrdd i'r gogledd), a ffermdy ac adeiladau fferm Hafod y Coed (500m i ffwrdd i'r dwyrain).

4.6.2 Ni fydd y datblygiad arfaethedig yn achosi unrhyw effeithiau andwyol ar drigolion cyfagos yn sgil sŵn neu aflonyddwch.

4.7 Treftadaeth

4.7.1 Mae'r safle arfaethedig yn sefyll o fewn ffiniau tirwedd o ddiddordeb hanesyddol neilltuol Dyffryn Clwyd. Gofynnwyd am gyngor CADW, a dyma'r ymateb a gafwyd:

"Nid yw'r rhan yma o'r dirwedd hanesyddol wedi cael ei phroffilio'n fanwl, ond mae'r disgrifiad Landmap lefel uwch yn dynodi ei bod yn rhan o ardal helaeth o gaeau o batrwm rheolaidd maint canolig â choetiroedd yma ac acw, ag awgrymiadau o dirwedd gynharach, o'r canoloesoedd o bosibl. Ni fydd creu pyllau o'r maint a nodwyd yn yr ardal hon yn cael unrhyw effaith o bwys ar y dirwedd hanesyddol gofrestredig."

4.7.2 Ymgynghorwyd ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys (CPAT), a chadarnhaodd canlyniadau o'r Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (HER) nad oes yna unrhyw gofnodion archeolegol nac olion hanesyddol o fewn y safle arfaethedig nac o fewn 500m i'r safle.

4.8 Trafnidiaeth, Mynediad a Pharcio

4.8.1 Bydd y datblygiad arfaethedig yn defnyddio'r fynedfa gyfredol oddi ar Heol Tremeirchion. Cyflawnwyd ymgynghoriad cychwynnol gydag un o Beirianwyr Rheoli Datblygiad CSD, ac mae'r ymateb a gafwyd yn cadarnhau, ar yr amod nad oes yna gynnydd mewn symudiad cerbydau yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, na fyddai angen gwella'r fynedfa gyfredol i Heol Tremeirchion yn rhan o'r datblygiad arfaethedig.

4.8.2 Ar ôl ei adeiladu, mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o ddenu'r symudiadau traffig canlynol, sydd yr un fath â'r gweithrediadau cyfredol.

- 3 ymweliad yr wythnos mewn fan
- 1 tancer slwtsh y mis (tancer maint tua 10k litr)

4.8.3 Ategir y Cais Drafft yma gan Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) sy'n clustnodi'r nifer a'r mathau o gerbydau y bydd eu hangen wrth gyflawni gwaith adeiladu.

4.8.4 Yn rhan o'r cynnig, caiff y ffordd fewnol sy'n arwain at y GTDG cyfredol ei gwella (ag arwyneb newydd).

4.8.5 Mae yna ddigon o le i ddarparu ar gyfer 2 le parcio ar gyfer staff cynnal-a-chadw o fewn y GTDG cyfredol.

4.9 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

4.9.1 Mae'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad mawr, ac felly mae'n dod o fewn y gofynion ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio yn unol â darpariaethau Adran 61Z o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd ("y Ddeddf"), a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2021, fel y'i diwygiwyd (DMPWO).

4.9.2 Mae'r Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad yma'n ffurfio'r dogfennau cynllunio ategol a gynhyrchwyd ar gyfer yr ymarfer Ymgynghori Cyn Ymgeisio a ddechreuodd ar 24 Hydref 2024 ac a fydd yn dod i ben ar 25 Tachwedd 2024.

4.9.3 Ar ôl i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ddod i ben, cynhyrchir Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio i ategu cyflwyniad cais cynllunio maes o law.

5.0 DYLUNIO A MYNEDIAD

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r Adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn amlinellu manylion y cynnig.

5.2 Defnydd a Maint

5.2.1 Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd i adeiladu gwlyptir trin adeiledig integredig yn gyfagos â'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff cyfredol.

5.2.2 Mae'r datblygiad yn cynnwys cyfanswm o 3 chell pwll gwlyptir, gosod 2 danc septig o dan y ddaear, codi cyfleuster lles un llawr, creu ffyrdd mynediad mewnol newydd, yn ogystal â ffensys a thirweddu.

5.2.3 Bydd arwynebedd pob cell gwlyptir yn mesur fel a ganlyn (yn fras):

- Cell 1 - 1650 m^2
- Cell 2 - 1575 m^2
- Cell 3 - 1370 m^2

5.2.4 Fel y dywedwyd, bydd gan gelloedd y pyllau gwlyptir ddyfnder gwlyb o tua 200mm.

5.3 Graddfa a Mas

5.3.1 Mae'r cyfleuster lles yn cynnwys strwythur un llawr, a fydd yn iwtilitaraidd yn nhermau ei ddyluniad, yn mesur 6m (hyd), 2.7m (lled) a 2.5m (uchder) ac yn cwmpasu ôl troed 16.2m^2. Darperir plan o'r llawr a gweddlun ar gyfer y cyfleuster lles arfaethedig (cyf. y plan PRT_2009CXN01A).

5.4 Gosodiad

5.4.1 Dangosir gosodiad arfaethedig y safle ar y plan a gyflwynwyd cyf. B17505-00DM13-03-AB-DR-CA-CI5042 - I1.1.

5.4.2 Dyluniwyd y gosodiad i sicrhau defnydd effeithlon o'r tir ac mae'n dilyn patrwm llinol er mwyn gweithredu'n effeithiol fel proses trin dŵr gwastraff. Gosodwyd y celloedd er mwyn sicrhau llain clustogi priodol rhyngddynt ac ardaloedd amddiffyn gwreiddiau'r coed i'r gogledd-orllewin i'r safle.

5.4.3 Mae'r gosodiad arfaethedig yn cynnwys trac graean, a fydd yn rhedeg dros hyd o tua 150m o'r GTDG cyfredol i Gell Gwlyptir 3. Bydd y trac yn 3.5m o led, ac fe'i gosodir rhwng ffin gogledd-orllewinol y safle ac ymyl gogleddol y celloedd gwlyptir. Yn y pen dwyreiniol, bydd y trac yn cysylltu â ffordd fynediad glascrit newydd a fydd yn cysylltu'r safle â'r GTDG cyfredol. Yn ogystal, cynigir gosod llwybrau graean rhwng celloedd 1 a 2 a chelloedd 2 a 3 er mwyn darparu mynediad i'r cyhoedd at ddibenion monitro a chynnal a chadw.

5.4.4 Bydd y penwal a'r pibellau yn mynd i mewn i'r coetir o ogledd-orllewin y safle er mwyn cysylltu â chwrs dŵr Nant Pen Isa'r Waen ar ôl i'r dŵr gwastraff gael ei drin. Cyflawnwyd Asesiad Ecolegol (Cyf EE.4346.23.HT) ar dri llwybr rhyddhau posibl. Y llwybr rhyddhau a ddewiswyd yw'r un gorau yn nhermau topograffeg ac yn nhermau cael yr effaith leiaf ar y coed cyfagos.

5.4.5 Cynigir codi ffens rhwystro da byw o gwmpas ffin y cae, a phlannu coedwrychoedd ar hyd y ffens er mwyn sicrhau gwahaniad wrth y tir amaeth cyfagos.

5.4.6 Mae'r cyfleuster lles arfaethedig yn rhan ogledd-ddwyreiniol y GTDG cyfredol, ac i'r gorllewin i hyn mae yna 2 le parcio ar gyfer y staff cynnal a chadw sy'n ymweld â'r safle.

5.5 Deunyddiau

5.5.1 Gosodir haen o bren Llarwydd o gwmpas y cyfleuster lles arfaethedig, a gadewir iddo aeddfedu/hindreulio'n naturiol, fel ei fod yn integreiddio cymaint â phosibl (yn weladwy) i'w lleoliad coediog.

5.5.2 Ffens rhwystro da byw o byst pren fydd y ffens arfaethedig a fydd yn amgylchynu ffin ddeheuol y safle.

5.5.3 Caiff y celloedd gwlyptir eu hunain eu leinio â chlai er mwyn atal y dŵr rhag dianc i'r pridd cyfagos.

5.5.4 Llwybr graean fydd y llwybr arfaethedig i'r gogledd i'r celloedd gwlyptir, a glascrit fydd y trac mynediad sy'n cysylltu'r ardal o gelloedd gwlyptir i'r GTDG cyfredol.

5.6 Tirweddu

5.6.1 Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnig cyfle sylweddol i gyfoethogi'r safle trwy greu cynefin gwlyptir amrywiol er mwyn caniatáu i amrywiaeth o rywogaethau dyfrol a daearol lewyrchu. Bydd plannu coedwrychoedd a glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau brodorol yn cyfoethogi tirwedd a bioamrywiaeth y safle eto fyth.

5.6.2 Ategir y Cais Drafft yma gan Gynllun Tirweddu yn ogystal â Methodoleg Plannu sy'n disgrifio'r rhywogaethau plannu, eu niferoedd a'r technegau plannu.

5.7 Mynediad a Pharcio

5.7.1 Bydd y datblygiad arfaethedig yn defnyddio'r fynedfa gyfredol oddi ar Heol Tremeirchion.

5.7.1 Yn rhan o'r cynnig, rhoddir arwyneb newydd ar y ffordd fynediad fewnol sy'n arwain at y GTDG cyfredol.

5.7.2 Mae yna ddigon o le i ddarparu 2 le parcio ar gyfer staff cynnal a chadw o fewn y GTDG cyfredol, a dangosir lleoliad y rhain ar y Plan Arfaethedig o'r Safle.

6.0 CASGLIADAU

6.1.1 Mae effeithiau cyfunol Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn mynnu bod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau materol yn dynodi fel arall.

6.1.2 Mae'r cais yma'n ceisio caniatâd cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd tir ac adeiladu Gwlyptir Trin Adeiledig Integredig (ICTW) a'r gwaith cysylltiedig, gan gynnwys gosod 2 danc septig danddaear, creu 3 chell gwlyptir â phlannu, cyfleuster lles, ffyrdd mynediad mewnol newydd, ffensys a thirweddu yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Tremeirchion.

6.1.3 Mae'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol Polisi Cynllunio Cymru yn ogystal â pholisïau lleol y Cynllun Datblygu Lleol, ac felly dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddi-oed.

Registered Office: InTec, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FG
Ffôn: 01248 672666
E-bost: contact@caulmert.com
Gwe: www.caulmert.com